


Cylch Gorchwyl Pwyllgor Sefydlog y Cyngor 2026/27

Cyflwyniad

1. Yn unol â darpariaethau'r Weithred a wnaed rhwng Prifysgol Cymru (PC) a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ar 18 Awst 2017, mae Cyngorau'r ddwy Brifysgol wedi penderfynu y byddant, o fis Medi 2019 ymlaen, yn cael eu gwasanaethu gan un strwythur pwyllgor sefydlog integredig. O fis Medi 2026 ymlaen, bydd strwythur y pwyllgor integredig yn cynnwys:
 - a. Pwyllgor Archwilio a Risg
 - b. Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant (a fydd yn gwasanaethu fel y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn unol â Statud VII);
 - c. Pwyllgor Taliadau
 - d. Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

Dangosir y strwythur ar ffurf diagram isod:



2. Mae cylch gorchwyl (dyletswyddau, aelodaeth a rheolau) y pwyllgorau, a gymeradwywyd gan y ddau Gyngor ym mis Gorffennaf 2026, wedi'i nodi yn y ddogfen hon. Yn unol ag egwyddorion strwythur y pwyllgor sefydlog integredig, ymgwymerir â dyletswyddau pob pwyllgor gydag awdurdod y ddau Gyngor. O fewn y cylch gorchwyl, mae'r term 'Cyngor' yn golygu Cyngorau PC a PCYDDS fel y bo'n briodol ac mae'r term 'Prifysgol' yn golygu PC a PCYDDS fel y bo'n briodol, ac eithrio lle nodir fel arall.
3. Mae Cynlluniau Dirprwyo'r ddau Gyngor yn nodi natur yr awdurdod dirprwyedig sydd gan rai pwyllgorau. Mae'r Ordinhadau yn pennu cyfnodau swydd cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau.
4. Yn unol â'r Weithred, mae aelodaeth pwyllgorau yn cynnwys craidd cyffredin o lywodraethwyr. Cyhoeddir protocol ar gyfer sicrhau cwora heb wrthdaro o ran penderfyniadau perthnasol yn y *Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor*.
5. Gellir cynnal cyfarfodydd mewn lleoliad ffisegol, o bell, neu lle caniateir hynny gan Gadeirydd y pwyllgor sefydlog, trwy fformat hybrid.

6. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar fusnes pob pwyllgor mewn perthynas â phob Prifysgol i'r Cyngor perthnasol. Bydd cofnodion cyfarfodydd pob pwyllgor (ac eithrio cofnodion neilltuedig y Pwyllgor Taliadau) ar gael i holl aelodau'r Cyngor.
7. Bydd pob pwyllgor yn cytuno ar adroddiad blynyddol ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor sy'n amlinellu'r busnes allweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol.
8. Rhaid i Gyngor PCYDDS gadw cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth PCYDDS ag Amodau Cofrestru a Chyllido Medr, gan gael ei gynghori gan ei bwyllgorau sefydlog ar faterion a restrir o fewn eu cylch gorchwyl, a bydd yn cadw goruchwyliaeth uniongyrchol ar y camau i gydymffurfio â'r Amodau canlynol:
 - Llywodraethu a Rheoli (Cyfeiriad Strategol ac Awydd Risg)
 - Ystyriaeth o Gyngor ac Arweiniad
 - Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad
 - Statws Elusennol
 - Hysbysu am Newidiadau
 - Statws yn Ddarparwr Addysg Drydyddol.
9. Cynghorir Cyngor PCYDDS gan Senedd PCYDDS ar yr Amodau canlynol:
 - Ansawdd a Gwelliant Parhaus
 - Cynllun Diogelu Dysgwyr
 - Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
 - Cyfle Cyfartal (drwy'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad)
 - Gweithdrefnau Cwyno (drwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant)
 - Trefniadau Dilysu
 - Gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr.
10. Cynghorir Cyngor PCYDDS gan Senedd PCYDDS ar y strategaethau canlynol:
 - Strategaeth Llwyddiant Academiaidd
 - Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau
 - Strategaeth Ymchwil ac Arloesi
 - Strategaeth Ehangu Mynediad.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Pwrpas

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg (PAR) yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor i oruchwyllo amgylchedd y Brifysgol o ran sicrwydd, rheolaeth a rheoli risg, gan gynnwys trefniadau archwilio mewnol ac allanol.

Strategaethau

Mae'r PAR yn gyfrifol i'r Cyngor am oruchwyllo Strategaethau canlynol y Brifysgol:

- Strategaeth Archwilio Allanol
- Strategaeth Archwilio Fewnol
- Strategaeth Gaffael.

Amodau Cofrestru a Chyllid

Mae'r PAR yn gyfrifol am adrodd wrth y Cyngor ar gydymffurfiaeth â'r Amod canlynol:

- Llywodraethu a Rheoli (Amgylchedd Sicrwydd).

Dyletswyddau

Dyletswyddau'r PAR fydd goruchwyllo archwilio a risg ar draws y Brifysgol a Grŵp PCYDDS, gan gynnwys:

Archwilio

1. Cynghori'r Cyngor ar benodi archwilwyr allanol y Grŵp, y ffi archwilio, darparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan yr archwilwyr allanol ac unrhyw gwestiynau ynghylch ymddiswyddiad neu ddiswyddiad yr archwilwyr allanol.
2. Trafod natur a chwmpas yr archwiliad gyda'r archwilwyr allanol, cyn i'r archwiliad ddechrau.
3. Trafod gyda'r archwilwyr allanol problemau ac amheuan sy'n deillio o'r archwiliadau interim a therfynol, gan gynnwys adolygiad o'r llythyr rheoli, gan ymgorffori ymatebion rheolwyr ac unrhyw fater arall y gallai'r archwilwyr allanol dymuno ei drafod (yn absenoldeb rheolwyr lle bo angen).
4. Adolygu'r datganiadau ariannol blynyddol ym mhresenoldeb yr archwilwyr allanol, gan gynnwys barn ffurfiol yr archwilwyr, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau a'r datganiad o reolaeth fewnol, yn unol â chyfarwyddiadau cyfrifon Medr, a gwneud argymhellion i'r Cyngor i'w cymeradwyo.
5. Ystyried a chynghori'r Cyngor ar benodiad a thelerau ymgysylltu gwasanaeth archwilio mewnol y Grŵp (a'r pennaeth archwilio mewnol os yw'n berthnasol), y ffi archwilio, darparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio gan yr archwilwyr mewnol ac unrhyw gwestiynau ynghylch ymddiswyddiad neu ddiswyddiad yr archwilwyr mewnol.

6. Adolygu asesiad risg archwilio mewnol, strategaeth, amserlen ac adroddiad blynyddol; ystyried canfyddiadau mawr ymchwiliadau archwilio mewnol ac ymateb rheolwyr; a hyrwyddo cydgysylltiad rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer archwilio mewnol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y Grŵp (neu'n gwneud argymhelliad i'r Cyngor fel y bo'n briodol).
7. Monitro gweithrediad argymhellion archwiliad y cytunwyd arnynt, o ba ffynhonnell bynnag.
8. Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol a mewnol yn flynyddol, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gwrthrychedd a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar eu hailbenodi, pan fo'n briodol.
9. Derbyn unrhyw adroddiadau perthnasol gan Medr, Archwilio Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a sefydliadau eraill.

Risg

10. Cadw dan adolygiad Cofrestrau Risg y Grŵp a'r Brifysgol a rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

Sicrwydd, Rheoleiddio a Rheoli

11. Goruchwyllo trefniadau cyffredinol y Brifysgol ar gyfer sicrwydd, cydymffurfio a chaffael, a rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod trefniadau addas ar waith i sicrhau addasrwydd y sefydliad ac i hyrwyddo economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian).
12. Cymeradwyo Rheoliadau Ariannol y Brifysgol yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, gan gynnwys rheolaeth y system fewnol a gynhwysir yn y Rheoliadau Ariannol.
13. Sicrhau yr ymchwiliwyd yn briodol i'r holl golledion sylweddol a bod yr archwilwyr mewnol ac allanol, a phan fo'n briodol Medr, wedi eu hysbysu.
14. Goruchwyllo cydymffurfiaeth y Brifysgol â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys cyfraith Cymru, y DU a chyfraith ryngwladol.
15. Goruchwyllo polisi'r Brifysgol ar dwyll ac afreoleidd-dra, gan gynnwys cael gwybod am unrhyw gamau a gymerwyd o dan y polisi hwnnw.
16. Darparu sicrwydd i'r Cyngor bod rheoli a sicrhau ansawdd data yn ddigonol ac yn effeithiol, a bod trefniadau ar waith i sicrhau bod ffurflenni data priodol a chywir yn cael eu gwneud i randdeiliaid allanol a chyrrff rheoleiddio.
17. Derbyn adroddiadau rheolaidd y Swyddog Atebol.
18. Goruchwyllo'r gwaith o gynnal fframweithiau ar gyfer Digwyddiadau Adnewyddadwy, lletygarwch ac anrhegion, a chwythu'r chwiban cyn eu cyflwyno i'r Cyngor.
19. Derbyn Datganiadau Ariannol ac Adroddiadau Rheoli Undeb Myfyrwyr PCYDDS a chefnogi'r Undeb Myfyrwyr o ran risg i enw da'r Brifysgol.
20. Monitro ymatebion y Brifysgol i gylchlythyrau a gyhoeddwyd gan Medr a chyrrff allanol allweddol eraill, a chyflwyno ffurflenni i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.
21. Adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor yn unol â gofynion Amodau Cofrestru a Chyllid Medr.

22. Yn achos uno neu ddiddymu, gwnewch yn siŵr bod y camau angenrheidiol wedi'u cwblhau, gan gynnwys trefnu i set derfynol o ddatganiadau ariannol gael eu cwblhau a'u llofnodi.

Hunanwerthuso

23. Sicrhau proses o hunanwerthuso gwaith y Pwyllgor.

Aelodaeth

- Hyd at bum aelod annibynnol a benodir gan y Cyngor, ac un ohonynt fydd Cadeirydd y Pwyllgor. Ni chaiff Cadeirydd y Cyngor nac aelodau'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad fod yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Hyd at bedwar person arall fel y gwêl y Pwyllgor yn dda, i'w cyfethol yn aelodau, fel arfer i gynnwys Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Coleg Sir Gâr (neu gynrychiolydd arall a benodir gan Gadeirydd Bwrdd Coleg Sir Gâr).

Cworwm

Tri aelod, gydag o leiaf ddau aelod annibynnol yn bresennol.

Amllder Cyfarfodydd

Fel arfer pedair gwaith y flwyddyn.

Presenoldeb

- Yr Is-Ganghellor
- Y Prif Swyddog Gweithredu
- Y Prif Swyddog Ariannol
- Y Prif Swyddog Pobl (cyfarfod Mai yn unig)
- Y Prif Swyddog Gweithredu, Coleg Sir Gâr
- Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cyngor
- Archwilwyr Allanol
- Archwilwyr Mewnol

Adrodd

Bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiadau blynyddol ar wahân i Gynghorau PC a PCYDDS. Bydd yr adroddiadau yn cynnwys y flwyddyn ariannol ac unrhyw faterion arwyddocaol hyd at ddyddiad paratoi'r adroddiadau. Cyflwynir yr adroddiadau i'r Cynghorau cyn i'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi. Yn unol â gofynion Medr, bydd yr adroddiadau yn crynhoi'r gweithgaredd ar gyfer y flwyddyn a byddan nhw'n rhoi barn y Pwyllgor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol ar gyfer y canlynol:

1. Rheoli risg, rheoli a llywodraethu (mae'r elfen rheoli risg yn cynnwys cywirdeb y datganiad o reolaeth fewnol sydd wedi'i gynnwys gyda'r datganiad cyfrifon blynyddol);
2. Economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian).

Awdurdod

Mae'r Pwyllgor wedi'i awdurdodi i gymeradwyo'r holl ddogfennau cynllunio archwilio ar ran y Cyngor.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu agweddau archwilio'r datganiadau ariannol blynyddol drafft. Bydd yr agweddau hyn yn cynnwys y farn archwilio allanol, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, y datganiad o reolaeth fewnol ac unrhyw faterion perthnasol a godwyd yn llythyr rheoli'r archwilwyr allanol. Pan fo'n briodol, dylai'r Pwyllgor gadarnhau gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol bod effeithiolrwydd y system rheoli fewnol wedi'i adolygu a rhoi sylwadau ar hyn yn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

Y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant

Pwrpas

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant (PLID) (sy'n ymgorffori'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu) wedi'i sefydlu i gynghori a chynorthwyo'r Cyngor i oruchwylio materion llywodraethu a chyfansoddiadol, goruchwylio cymuned strategol y Brifysgol, sut mae gwerthoedd y Brifysgol yn cael eu hadlewyrchu o fewn diwylliant cymuned y Brifysgol, hyrwyddo'r Gymraeg, a dyfarnu graddau a chymrodoriaethau er anrhydedd y Brifysgol.

Strategaethau

Mae'r PLID yn gyfrifol am oruchwylio Strategaethau canlynol y Brifysgol:

- Y Strategaeth Iechyd a Llesiant
- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Strategaeth y Gymraeg.

Amodau Cofrestru a Chyllid

Mae'r PLID yn gyfrifol am adrodd wrth y Cyngor ar gydymffurfiaeth â'r Amodau canlynol:

- Llywodraethu a Rheolaeth (Llywodraethu Da, Corff Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Rhanddeiliaid)
- Llesiant Staff a Dysgwyr
- Y Gymraeg.

Dyletswyddau

Dyletswyddau'r PLID fydd:

Strategaeth a Chydymffurfiaeth

1. Goruchwylio'r gwaith o baratoi a gweithredu strategaethau o fewn ei faes.

Llywodraethu a Chyfansoddiad

2. Goruchwylio'r gwerthusiad blynyddol o effeithiolrwydd llywodraethu a'r trefniadau ar gyfer ei adolygiad cyfnodol.
3. Monitro gallu llywodraethu'r Cyngor, trefniadau llywodraethu, arferion, diwylliant, a chydymffurfiaeth â *Chod Llywodraethu Addysg Uwch* CUC a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â'r materion hyn.
4. Goruchwylio a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar newidiadau arfaethedig i strwythur cyfansoddiadol y Brifysgol ac offerynnau statudol cysylltiedig.
5. Monitro llywodraethu a materion cyfansoddiadol ar gyfer Grŵp ehangach PCYDDS yn unol â'r Protocol ar gyfer gweithredu'r berthynas rhwng y Brifysgol a Choleg Sir Gâr.
6. Adolygu, i'w hargymell i'r Cyngor, y manylebau rôl ar gyfer swyddi'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, ac aelodau eraill y Cyngor.

7. Pennu meini prawf ar gyfer penodi Cadeirydd, Is-gadeirydd, ac aelodau eraill y Cyngor ac argymell ymgeiswyr addas i'r Cyngor.
8. Adolygu a monitro cyfansoddiad ac anghenion aelodaeth y Cyngor a'i bwyllgorau a gwneud argymhellion ar aelodaeth, gan roi dyledus sylw i'r canlynol:
 - a. y cydbwysedd o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sy'n ofynnol ar y Cyngor a'i Bwyllgorau;
 - b. deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth;
 - c. gofynion Amodau Cofrestru a Chyllid Medr.
9. Monitro, goruchwyllo a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar hyfforddiant a datblygiad aelodau.
10. Gwneud argymhellion ar benodi cyfarwyddwyr i is-gwmnïau'r Brifysgol ac ar benodi aelodau i wasanaethu ar gyrff eraill yn gynrychiolwyr ar ran y Brifysgol.

Cymuned a Diwylliant y Brifysgol

11. Ystyried materion sy'n ymwneud â lles a phrofiad myfyrwyr a staff.
12. Goruchwyllo'r gwerthusiad blynyddol o les staff a dysgwyr a chyflawni'r Cynllun Gweithredu Lles.
13. Monitro materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer y Cyngor a'r Brifysgol.
14. Ystyried adroddiadau ar ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n hyrwyddo amcanion a gwerthoedd y Brifysgol.
15. Ystyried a monitro trefniadau sy'n ymwneud â datblygu sefydliadol a chynllunio olyniaeth
16. Cadw trosolwg o gwynion a wneir i'r Brifysgol, gan adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor.

Adnoddau Dynol

17. Gwneud argymhellion i'r Cyngor ar strategaethau, polisïau ac arferion adnoddau dynol newydd neu ddiwygiedig i gefnogi amcanion adnoddau dynol cyffredinol, a chymeradwyo gweithdrefnau mewn perthynas â materion adnoddau dynol.
18. Ystyried adroddiadau ac argymhellion ar faterion staffio sy'n deillio o strategaethau Adnoddau Dynol a/neu bolisïau a gweithdrefnau.
19. Cynnal trosolwg o gytundebau setlo a chytundebau peidio â datgelu o fewn maes llywodraethu'r Brifysgol.

Y Gymraeg

20. Ystyried materion sy'n ymwneud â strategaeth PCYDDS ar hyrwyddo a datblygu addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog.
21. Goruchwyllo'r gwerthusiad blynyddol o Strategaeth y Gymraeg.
22. Rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â chydymffurfiaeth y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg.

Dyfarniadau er Anrhydedd

23. Goruchwylio'r broses ar gyfer nodi, ystyried ac enwebu personau y gellir rhoi Graddau a Chymrodoriaethau'r Brifysgol er Anrhydedd iddynt, a chymeradwyo enwebiadau o'r fath ar ran y Cyngor.

Hunanwerthuso

24. Sicrhau proses o hunanwerthuso gwaith y Pwyllgor.

Aelodaeth

- Cadeirydd y Cyngor (*ex-officio*)
- Yr Is-Ganghellor (*ex-officio*)
- Hyd at bedwar aelod annibynnol a benodir gan ac o blith y Cyngor, ac un o'r rhain i'w benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor
- Aelod o staff y Cyngor
- Dau aelod-fyfyriwr o'r Cyngor

Cworwm

Pum aelod, a'r mwyafrif yn aelodau annibynnol.

Amlder Cyfarfodydd

Fel arfer pedair gwaith y flwyddyn.

Presenoldeb

Ar gyfer materion llywodraethu:

- Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cyngor

Ar gyfer materion eraill:

- Y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg)
- Y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Gwasanaethau Cymraeg)
- Prif Swyddog Pobl
- Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cyngor

Y Pwyllgor Taliadau

Pwrpas

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor ar y strategaeth a'r polisi gwobrwyo sy'n cynnwys taliadau, buddion ac amodau cyflogaeth uwch swyddogion y Brifysgol.

Dyletswyddau

Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

1. Adolygu a phenderfynu ar sail flynyddol ar gyflogau, telerau ac amodau a phan fo'n briodol, amodau diswyddo'r Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu, y Pro Is-Ganghellorion, Clerc y Cyngor a'r uwch aelodau staff eraill fel yr ystyria'r Cyngor yn briodol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried gwybodaeth gymharol am gyflogau ac enillion eraill ac amodau gwasanaeth yn y sector addysg uwch ac mewn mannau eraill fel y bo'n briodol.
2. Adolygu, o bryd i'w gilydd, annibyniaeth ac atebolrwydd Clerc y Cyngor yng nghydestun cyfrifoldebau gweithredol ehangach deiliad y swydd.
3. Sicrhau proses o hunanwerthuso ei waith.

Aelodaeth

- Cadeirydd y Cyngor (*ex-officio*)
- Hyd at bedwar aelod annibynnol a benodir gan y Cyngor ac oddi wrtho, ac un ohonynt fydd Cadeirydd y Pwyllgor
- Un aelod o staff y Cyngor
- Hyd at un person arall fel y cyfetholir gan y Pwyllgor yn aelod

Cworwm

Tri aelod, a'r mwyafrif yn aelodau annibynnol.

Amllder Cyfarfodydd

Fel arfer dwywaith y flwyddyn.

Presenoldeb

- Y Prif Swyddog Pobl
- Yr Is-Ganghellor
- Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cyngor

Bydd gwahoddiad i'r Is-Ganghellor gynghori'r Pwyllgor mewn perthynas â swyddogion eraill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Bydd y Clerc yn tynnu'n ôl pan fydd ei gyflog, ei delerau ac amodau neu ei dâl diswyddo yntau dan sylw. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ei argymhellion yn absenoldeb unrhyw aelod gweithredol, er y bydd y Prif Swyddog Pobl yn parhau i fod yn bresennol i roi cyngor, yn ôl yr angen.

Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad

Pwrpas

Mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (PAPh) yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor gyda goruchwyllo gwaith cynllunio strategol y Brifysgol, ei chyllid, ei hadnoddau, ei seilwaith, ac am fonitro perfformiad cyffredinol o ran mesurau cymeradwy.

Strategaethau

Mae'r PAPh yn gyfrifol am oruchwyllo Strategaethau canlynol y Brifysgol:

- Y Cynllun Strategol
- Y Strategaeth Ddigidol
- Y Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- Marchnata a Chyfathrebu.

Amodau Cofrestru a Chyllid

Mae PAPh yn gyfrifol am adrodd ar gydymffurfiaeth â'r Amodau canlynol:

- Cyfle Cyfartal
- Terfynau Ffioedd
- Cynaliadwyedd Ariannol
- Llywodraethu a Rheoli (Rheoli Ariannol, Rheoli Ystadau).

Dyletswyddau

Dyletswyddau PAPh fydd:

Strategaeth a Pherfformiad

1. Goruchwyllo'r trefniadau ar gyfer paratoi Cynllun Strategol, Cynllun Blynyddol a strategaethau ategol y Brifysgol, gan gynnwys y rhai ar gyfer Grŵp PCYDDS, a rhoi cyngor i'r Cyngor ar gymeradwyo a chynnydd wrth weithredu.
2. Argymhell i'r Cyngor ac wedyn monitro perfformiad o ran Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
3. Goruchwyllo paratoi a gweithredu strategaethau eraill o fewn ei faes.

Cyllid

4. Cynghori a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar gyllidebau a rhagolygon refeniw a chyfalaf blynyddol y Brifysgol.
5. Adolygu'r perfformiad ariannol o ran rhagfynegiadau, cyllidebau a chynlluniau tymor hwy; a monitro a rheoleiddio cyllid, cyfrifon a buddsoddiadau'r Brifysgol o fewn y polisi a'r paramedrau cyffredinol a bennir gan y Cyngor; a sicrhau bod y systemau rheoli mewnol priodol ar waith ar gyfer arfer rheoli'r gyllideb a stiwardiaeth briodol ar adnoddau'r Brifysgol.

6. Cynghorir y Cyngor ar y camau sydd eu hangen i sicrhau:
 - a. hyfywedd ariannol tymor byr, canolig a hirdymor y Brifysgol;
 - b. y cynorthwyr gofynion y Cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau gan gyngor priodol ar faterion ariannol mawr sy'n sail i'r gwaith o gyflawni amcanion strategol sefydliadol;
 - c. y bodlonir gofynion Amodau Cyllido Medr, gan gynnwys y gofyniad i gynnal hyfywedd ariannol;
7. Cyngori'r Cyngor ar:
 - a. unrhyw fuddsoddiad newydd a benthyca arian o fewn unrhyw derfynau a ragnodir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor;
 - b. dewis contractwyr, a rhwymedigaethau cytundebol arfaethedig gyda goblygiadau ariannol, o fewn unrhyw derfynau a ragnodir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor;
 - c. materion sy'n ymwneud â pherfformiad ariannol y cynlluniau pensiwn perthnasol, gan gynnwys darparu unrhyw gyngor a chymorth o'r fath i'r ymddiriedolwyr yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol yn unol â rhwymedigaethau cyflogwr a gofynion llywodraethu corfforaethol y cytunwyd arnynt;
 - d. materion perthnasol a allai fod wedi'u codi gyda'r Cyngor gan yr archwilwyr a'r cynlluniau a'r rhagolygon ariannol;
 - e. dileu dyledion yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.
8. Derbyn adroddiadau ar ragolygon recriwtio a chofrestru myfyrwyr, Terfynau Ffioedd, a chynghori'r Cyngor ar y goblygiadau i sefyllfa ariannol y Brifysgol.
9. Goruchwyllo'r trefniadau angenrheidiol mewn cysylltiad â chyfrifon banc y Brifysgol, yswiriant, benthyca, buddsoddi, cyngorwyr proffesiynol a materion eraill o'r fath.
10. Adolygu'n rheolaidd Reoliadau Ariannol y Brifysgol a'u diwygio fel y bo'n briodol i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.
11. Paratoi a chraffu ar Ddatganiadau Ariannol blynyddol a chyfrifon rheoli'r Brifysgol a chynghori'r Cyngor yn unol â hynny.
12. Ystyried cynigion mewn perthynas â dyrannu arian i Undeb Myfyrwyr PCYDDS a chynghori'r Cyngor yn unol â hynny.

Adnoddau Dynol

13. Ystyried yn flynyddol grynodedb o strwythur cyflog a thelerau ac amodau staff (ac eithrio'r rhai o dan gylch gwaith y Pwyllgor Taliadau); cymeradwyo setliadau cyflog a chyflog blynyddol ar gyfer yr holl staff ar raddfeydd safonol: ac argymhell i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyo setliadau tâl a chyflog nad ydynt yn rhan o gytundeb cenedlaethol.
14. Ystyried cynigion ar gyfer unrhyw ailstrwythuro ar sefydliad staffio'r Brifysgol a chynghori'r Cyngor yn unol â hynny.

Seilwaith a Phrosiectau

15. Goruchwyllo'r gwaith o baratoi strategaethau seilwaith y Brifysgol a phrosiectau cysylltiedig, gan gynnwys Seilwaith Digidol, Deallusrwydd Artiffisial ac Ystadau, a rhoi cyngor i'r Cyngor ar gymeradwyo a chynnydd gyda gweithredu.
16. Cyngori'r Cyngor ar adnoddau a chyflawni prosiectau cyfalaf mawr a materion sy'n ymwneud â chaffael ystadau, gwaredu, a newid defnydd, gan gynnwys prynu neu

forgeisio eiddo a dewis contractwyr, o fewn unrhyw derfyn a ragnodir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor.

17. Ystyried adroddiadau ar reolaeth weithredol y seilwaith, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cydymffurfio, iechyd a diogelwch, seiberddiogelwch, defnyddio gofod, a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Is-gwmnïau

18. Cael goruchwyliaeth, ar ran y Cyngor, o is-gwmnïau'r Brifysgol, gan gynnwys eu ffurfio, eu perfformiad, eu hehangu a/neu eu diddymu, ac adrodd arno wrth y Cyngor.
19. Adolygu'r Protocol Gweithredu rhwng PCYDDS a CSG o bryd i'w gilydd a chynghori'r Cyngor ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol.

Hunanwerthuso

20. Sicrhau proses o hunanwerthuso gwaith y Pwyllgor.

Aelodaeth

- Cadeirydd y Cyngor (*ex-officio*)
- Yr Is-Ganghellor (*ex-officio*)
- Hyd at bum aelod annibynnol a benodir gan y Cyngor ac o blith y Cyngor, ac un o'r rhain i'w benodi'n Gadeirydd
- Un aelod o staff y Cyngor
- Un aelod-fyfyriwr o'r Cyngor
- Hyd at ddau berson arall fel y gallai'r Pwyllgor dybio eu bod yn addas i'w cyfethol yn aelodau

Cworwm

Pum aelod, a'r mwyafrif yn aelodau annibynnol.

Amllder Cyfarfodydd

Fel arfer pum gwaith y flwyddyn.

Presenoldeb

- Y Prif Swyddog Gweithredu
- Y Prif Swyddog Pobl
- Y Prif Swyddog Ariannol
- Prif Swyddog Gweithredu Coleg Sir Gâr
- Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cyngor

Ar gyfer materion academaidd perthnasol yn unig:

- Y Pro Is-Gangellorion

Ar gyfer materion Ystadau yn unig:

- Cyfarwyddwr Interim Ystadau
- Dirprwy Gyfarwyddwr Interim Ystadau

Atodiad: Mapio Amodau Cofrestru Medr

Amod	Y Cyngor	Archwilio a Risg	Llywodraethu a Diwylliant	Adnoddau a Pherfformiad	Trwy'r Senedd
Cynaliadwyedd Ariannol					
Llywodraethu a Rheolaeth					
Ansawdd a Gwelliant Parhaus					
Lles Staff a Dysgwyr					
Y Gymraeg					
Diogelu Dysgwyr					
Cod Ymgysylltu â Dysgwyr					
Cyfle Cyfartal					
Gweithdrefn Cwyno					
Ystyriaeth o Gyngor ac Arweiniad					
Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad					
Trefniadau Dilysu					
Statws Elusennol					
Gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr					
Terfynau Ffioedd					
Hysbysu am Newidiadau					
Statws yn Ddarparwr Addysg Drydyddol					